

Eich hawliau pan rydych chi'n feichiog



Ar gyfer rhieni ag anabledd dysgu

Mae'r llyfryn yma yn dweud wrthy'ch chi beth mae'r gyfraith yn ei ddweud am eich hawliau



Sut i ddefnyddio'r llyfryn hwn



Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y llyfryn yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu.

Mae rhai geiriau yn anodd i'w deall efallai. Maen nhw mewn **ysgrifen glas clir** ac maen nhw wedi cael eu hesbonio yn y blwch o dan y gair.

Os ydy unrhyw un o'r geiriau yn cael eu defnyddio eto yn y llyfryn maen nhw'n cael eu dangos mewn **ysgrifen glas normal**. Os ydych yn gweld geiriau mewn **ysgrifen glas normal**, ewch i'r **Geiriau anodd** ar dudalen 12 i weld beth maen nhw'n feddwl.



Cafodd y llyfryn yma ei wneud yn hawdd ei ddeall ar gyfer y Rhwydwaith Gweithio ar y Cyd gyda Rhieni gan Anabledd Dysgu Cymru gan ddefnyddio Photosymbols.

Mae'r llyfryn yma yn rhan o set o 4 llyfryn am eich hawliau fel rhiant:



Llyfryn 1 — Eich hawliau pan rydych chi'n feichiog



Llyfryn 2 — Eich hawliau pan mae eich babi yn cael ei eni



Llyfryn 3 — Eich hawliau gyda gwasanaethau cymdeithasol



Llyfryn 4 — Eich hawliau pan mae eich plentyn yn cael ei gymryd

I gael rhagor o gopïau o unrhyw un o'r llyfrynnau yma cysylltwch gyda Samantha Williams, Cydlynnydd Polisi a Rhwydwaith:



Ffôn: 029 2068 1160

E-bost: samantha.williams@ldw.org.uk



Gwefan: www.adcymru.org.uk/prosiectau/prosiectau-cyfredol/gweithio-ar-y-cyd-gyda-rhieni

Sut i ddefnyddio'r llyfryn hwn	2
Eich hawl i wybodaeth sydd yn hawdd i chi ei deall	5
Eich hawliau gyda gweithwyr cymdeithasol	7
Eich hawliau pan mae gennych swydd.....	9
Cwyno pan nad ydy eich hawliau'n cael eu cadw	10
Staff iechyd gofal.....	10
Staff gwasanaethau cymdeithasol	11
Geiriau anodd	12

Eich hawl i wybodaeth sydd yn hawdd i chi ei deall



Pan rydych chi'n feichiog dylai staff iechyd eich helpu i ddeall beth sy'n digwydd i'ch corff.


Mae hyn yn gallu cynnwys:



- cyngor am y meddyginiaethau yr ydych efallai eu hangen
- sut y gallai'r meddyginiaethau hyn effeithio arnoch chi neu ar eich babi



- sut y gall eich teimladau newid
- sut y gall eich corff newid.



Rhaid i wybodaeth gael ei rhoi yn y ffordd orau chi ei deall. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth yn Gymraeg.



Mae gennych hawl i gael amser ychwanegol pan fyddwch yn gweld staff iechyd. Mae hyn yn golygu eu bod nhw'n gallu esbonio pethau'n iawn i chi.



Mae gan dad eich babi yr hawl yma hefyd.

Eich hawliau gyda gweithwyr cymdeithasol



Pan rydych yn feichiog fe fydd rhai pobl yn poeni efallai ynghylch sut y byddwch yn gofalu am y babi.

Os ydy hyn yn digwydd fe fydd gweithiwr cymdeithasol yn edrych ar beth rydych chi yn gallu ei wneud.



Fe fydd y gweithiwr cymdeithasol yn penderfynu pa gefnogaeth y gallwch fod ei angen i ofalu am eich babi pan fydd yn cael ei eni.

Mae gennych hawl i ddweud pa help rydych chi'n meddwl y byddwch ei angen.




Mae **eiriolydd** yn gallu eich cefnogi gyda hyn.

Eiriolydd ydy person sydd yn siarad drosoch chi neu yn eich helpu i siarad drosoch eich hun.

Mae'r **eiriolydd** yn gallu eich helpu:



- i ddeall unrhyw lythyrau rydych chi'n eu cael
- i baratoi ar gyfer cyfarfodydd
- i ddweud beth rydych yn ei feddwl
- i gynllunio beth i'w wneud nesaf.



Rhaid i rai pobl fynd i'r llys i benderfynu ar y gefnogaeth rydych chi ei angen.

Mae gennych hawl i **gyfreithiwr** i'ch helpu yn y llys.



Cyfreithiwr ydy rhywun sydd wedi'u hyfforddi i ddeall y gyfraith.

Rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol ddweud wrthyh chi sut i gael **cyfreithiwr**.

Mae gennych hawl i **gymorth cyfreithiol** i dalu am y cyfreithiwr.



Cymorth cyfreithiol ydy arian gan y llywodraeth i helpu i dalu am gyfreithiwr.

Eich hawliau pan mae gennych swydd



Mae deddf o'r enw Deddf Cydraddoldeb yn dweud bod gennych hawl pan rydych yn feichiog:

- i gael eich trin yn deg
- i gadw eich swydd
- i gael amser o'r gwaith i weld staff iechyd
- i gael amser o'r gwaith os ydych yn sâl oherwydd eich bod yn feichiog.



Mae gennych hawl i'r wybodaeth yma yn y ffordd orau i chi ei deall.

Cwyno pan nad ydy eich hawliau'n cael eu cadw

Staff iechyd gofal



Efallai eich bod yn teimlo nad ydy staff iechyd yn eich cefnogi chi.



Os ydy hynny'n digwydd, ceisiwch esbonio wrthyn nhw sut rydych yn teimlo. Mae **eiriolydd** yn gallu eich helpu gyda hyn.



Os ydych yn dal yn anhapus gyda'r gefnogaeth rydych chi'n ei gael, gallwch gwyno wrth eich Cyngor Iechyd Cymuned lleol.



Mae yna 7 Cyngor Iechyd Cymuned yng Nghymru. Fe fydd staff yn eich meddygfa yn gallu dweud wrthy'ch sut i gysylltu gyda nhw.



Fe fydd y Cyngor Iechyd Cymuned yn eich helpu gyda'ch cwyn.

Staff gwasanaethau cymdeithasol



Efallai eich bod yn teimlo bod eich gweithiwr cymdeithasol yn bod yn annheg.



Os ydy hyn yn digwydd, ceisiwch esbonio sut rydych chi'n teimlo.



Os ydych yn dal yn anhapus, gallwch gwyno wrth y cyngor lleol lle mae'r gweithiwr cymdeithasol yn gweithio.

Fe fydd y cyngor yn edrych ar beth rydych chi'n ei ddweud wrthyn nhw ac yn penderfynu beth sydd angen ei wneud.

Mae [eiriolydd](#) yn gallu eich helpu gyda hyn.

Geiriau anodd

Cyfreithiwr

Cyfreithiwr ydy rhywun sydd wedi'u hyfforddi i ddeall y gyfraith.

Cymorth cyfreithiol

Cymorth cyfreithiol ydy arian gan y llywodraeth i helpu i dalu am gyfreithiwr.

Eiriolydd

Eiriolydd ydy person sydd yn siarad drosoch chi neu yn eich helpu i siarad drosoch eich hun.